**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cadeirydd Grŵp Llywio Partneriaeth Llechi Cymru

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd

Dyddiad | Date: 30 Gorffennaf 2021

Pwnc | Subject: Dyfarnu statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO

Annwyl Arglwydd Wigley a Chynghorydd Thomas,

Fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru, hoffwn longyfarch tîm Llechi Cymru ar ei gais llwyddiannus am statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Cymru. Mae hyn yn gymeradwyaeth aruthrol i gryfder y cais, natur unigryw y safle, a gwaith caled y tîm a wnaeth y cais.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu fy neges o longyfarchiadau â phawb o Gyngor Gwynedd, Cadw, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Bangor, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a'r Amgueddfa Lechi Cymru am eu gwaith caled i gyflawni'r llwyddiant hwn. Bydd y dyfarniad hwn yn codi proffil safleoedd treftadaeth ddiwydiannol Cymru, sy'n ffynhonnell incwm bwysig o ganlyniad i dwristiaeth ac yn fodd hefyd i addysgu a chyfareddu pawb sy'n ymweld â hwy. Bydd ardal sydd wedi bod mor ganolog i hanes Cymru nawr â rhan annatod yn nyfodol ein cenedl, ac yn y proffil sydd gennym yn rhyngwladol.

Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â rhaglen eang o waith yn ystod y Chweched Senedd a fydd yn cynnwys edrych ar y cyfleoedd i'r sector treftadaeth a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Rwy'n falch mai un o'm tasgau cyntaf fel Cadeirydd yw dathlu'r dyfarniad llwyddiannus hwn, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.